## Disgwyliadau

Disgwyliwn i chi fod yn broffesiynol, yn ymroddedig i'ch prentisiaeth ac yn barod i wneud y gwaith sy'n ofynnol i gyflawni eich cymhwyster. Byddwch yn ennill sgiliau newydd a fydd yn dangos cymhwysedd yn eich maes astudio dewisol yn ogystal â datblygu gwybodaeth a damcaniaethau sydd eu hangen i ddyfnhau eich dealltwriaeth.

Bydd yr amser a gymerir fel arfer i gwblhau eich prentisiaeth yn amrywio yn dibynnu ar lefel yr astudio. Fel canllaw

- Bydd prentisiaeth sylfaen (L2) fel arfer yn cael ei chwblhau o fewn 12 - 15 mis
- Fel arfer bydd prentisiaeth safonol (L3) yn cael ei chwblhau o fewn 18 mis
- Bydd prentisiaeth uwch (L4-5) fel arfer yn cael ei chwblhau o fewn 24 mis
- Dim ond mewn TG, Gweithgynhyrchu Uwch, Pheirianneg Rheilffordd ac Adeilaeth y mae prentisiaeth gradd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd

Bydd yr amser a gymerir i gwblhau eich prentisiaeth yn dibynnu ar eich ymrwymiad cyfleoedd ar gyfer yr elfennau datblygu cymhwysedd / sgiliau yn eich gweithle.




## Ein gwerthoedd

Ein gweledigaeth yw “datblygu gweithlu medrus a chynaliadwy sy’n gwella gofal ac iechyd y boblogaeth”. Mae dros 100 000 o bobl yn gweithio yn y GIG yng Nghymru ac maent yn ganolog i adeiladu system gofal iechyd cynaliadwy sy'n diwallu anghenion y boblogaeth.

Ein pwrpas yw, “fel rhan o’r GIG, gweithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu, addysgu a hyfforddi gweithlu’r presennol a’r dyfodol”.

Yn AaGIC mae ein gwerthoedd yn cynrychioli sut rydym yn trin eraill, sut byddwn yn gweithio a sut rydym yn cefnogi ein cydweithwyr gofal iechyd – a allai eich cynnwys chi! Pwrpas ein nodau yw sicrhau bod pobl Cymru yn cael gofal iechyd o’r radd flaenaf.




Mae gan fyrddau iechyd unigol, a fydd yn eich cyflogi fel prentis, eu gwerthoedd eu hunain ac mae’r rhain ar gael ar eu gwefannau.

**Parch i Bawb**: ym mhob cyswllt a gawn ag eraill

**Gyda’n gilydd fel Tîm**: byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws GIG Cymru a chyda sefydliadau partner

**Syniadau sy'n Gwella**: harneisio creadigrwydd ac arloesi a gwerthuso'n barhaus.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd prentisiaeth, cysylltwch â’r timau Dysgu a Datblygu yn eich bwrdd iechyd

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Prentisiaethau yn GIG Cymru



## Croeso

A ydych yn ystyried prentisiaeth yn GIG Cymru? Dewis gwych! Gallwn gynnig cyfleoedd i chi ennill cyflog wrth ddysgu mewn meysydd clinigol ac anghlinigol.

Ydych chi eisiau datblygu sgiliau a gwybodaeth mewn Gwasanaethau Gofal Iechyd, Gwybodeg, Peirianneg Glinigol, Cyfleusterau, Rheolaeth, Arlwyo neu hyd yn oed adeiladu? Gallai prentisiaeth yn GIG Cymru fod yn iawn i chi.

## A yw prentisiaeth yn iawn i chi?

**Wyt ti:**

- ✓ yn gweithio yng Nghymru am 51% neu fwy o'ch amser?
- ✓ ddim mewn addysg llawn amser?
- ✓ yn 16 oed neu drosodd? (Bydd rhai llwybrau prentisiaeth yn ei gwneud yn ofynnol eich bod yn 18 oed neu'n hŷn fel y rhai sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl, pediatreg neu amgylchedd theatr)
- ✓ newydd i GIG Cymru neu eisoes yn gweithio yn GIG Cymru ac yn edrych i uwchsgilio?

Os ateboch 'ydw' i'r holl gwestiynau hyn, yna gallech fod yn gymwys i gael prentisiaeth.



**Manteision posib:**

- ennill cymhwyster wedi'i ariannu'n llawn dra'ch bod yn gyflogedig mewn rolau clinigol neu anghlinigol yn GIG Cymru
- ennill isafswm cyflog prentisiaeth o leiaf – mae rhai byrddau iechyd neu ymddiriedolaethau yn talu mwy na'r gyfradd hon ar gyfer rhai llwybrau
- cyfle i wella llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, ochr yn ochr â chymhwyster pwnc penodol
- ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol
- cael eich cyflogi am o leiaf 16 awr yr wythnos gan y bwrdd iechyd/ ymddiriedolaeth a bydd yn cael yr un buddion ag unrhyw aelod arall o staff. Bydd hyd eich gontract yn amrywio yn dibynnu ar eich gweithle.

### Pa brentisiaethau allwn i'w gwneud?

Bydd hyn yn amrywio rhwng byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau. Sganiwch y cod QR isod i ddod o hyd i restr o'r rhai sydd ar gael ar draws GIG Cymru gyfan.

aagic.gig.cymru/images/arc-apprenticeships-qualification-summary-cym-v3-pdf/

Efallai y bydd cyfyngiadau ar y fframweithiau prentisiaeth sydd ar gael i chi, gall y rhain fod yn benodol i'r disgrifiad swydd neu swydd a hysbysebir neu gael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. I wirio holl feini prawf cymhwysedd Llywodraeth Cymru a gwybodaeth gyhoeddedig arall, sganiwch y cod QR isod.

gov.wales/welsh-government-apprentices

## Strwythur eich prentisiaeth

Mae gan bob prentisiaeth gymhwyster (cymwysterau) craidd. Bydd hyn yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â rôl y swydd ar lefel briodol.

Gall prentisiaeth hefyd roi cyfle i chi ddatblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd ar lefel sy'n briodol i lefel y brentisiaeth rydych wedi dewis ei hastudio.

Y cymwysterau craidd ar gyfer pob fframwaith prentisiaeth a geir trwy Lyfrgell Fframwaith Prentisiaethau.

dodohydibrentisiaeth.gwasanaeth.llyw.cymru/dod-o-hyd-i-fframwaith-prentisiaeth

### Beth fydd yn digwydd yn ystod wythnosau cyntaf fy mhrentisiaeth?

- Byddwch yn cyfarfod â'r tîm prentisiaeth neu reolwr yn eich bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd; byddant yn rhai sy'n cynnig y gefnogaeth i chi yn yr amgylchedd gwaith
- Cwblhau ffurflenni cofrestru
- Cyfarfod â darparwr yr hyfforddiant neu aseswr i gofrestru ar gymhwyster. Bydd y darparwr hyfforddiant yn cyflwyno eich cymwysterau sgiliau craidd a hanfodol
- Cynnal asesiad sgiliau hanfodol
- Cwblhau modiwlau Cofnod Staff Electronig (ESR) gorfodol. Cwblheir y modiwlau hyn gan yr holl staff newydd a gaiff eu recriwtio i weithio yn GIG Cymru

Os ydych yn cwblhau fframwaith gofal iechyd, byddwch hefyd yn cael cwblhau hyfforddiant Sefydlu Clinigol a Chodi a Chario Cymru gyfan yn ystod yr wythnos gyntaf lle bo modd.